
Asiantaeth y
Swyddfa Brisio

2023-2024

# Asiantaeth y Swyddfa Brisio ac Awdurdodau Lleol – gweithio ar y cyd i gefnogi'r cwsmeriaid a rennir

## Pwy ydym a'n swyddogaethau




Mae Asiantaeth y Swyddfa Brisio (VOA) yn llunio ac yn cynnal rhestrau statudol o werthoedd ardrethol ar gyfer eiddo annomestig, a rhestrau statudol o fandiau Treth Gyngor ar gyfer eiddo domestig. Mae Swyddogaethau'r Swyddog Rhent yn cynnwys cefnogi'r Adran Gwaith a Phensiynau wrth iddynt ddelio â Budd-dal Tai a Lwfans Tai Lleol ar gyfer Lloegr.

Mae Timau Cyllid a Budd-daliadau yn gyfrifol am filio a chasglu Ardrethi Annomestig a Threth Gyngor. Maent hefyd yn rhoi gwybod i'r VOA am unrhyw newidiadau sydd i'w gwneud i'r rhestrau Ardrethi Annomestig a Threth Gyngor.

Mae Timau Budd-dal Tai yr Awdurdodau Lleol yn delio â hawliadau Budd-dal Tai.

# Diben y ddogfen hon

## Mae'r ddogfen hon yn amlinellu ein gobeithion o ran sut y bydd Asiantaeth y Swyddfa Brisio a'r Awdurdodau Lleol (ALlau) yn gweithio ar y cyd er mwyn darparu eu swyddogaethau prisio, cyllid a budd-daliadau.

Nid diben y ddogfen hon yw disodli unrhyw gytundeb neu arweiniad sy'n bodloni eisoes. Y gobaith yw i'r egwyddorion allweddol a nodir yma cynorthwyo ein perthynas.

Mae gan bob partner i'r cytundeb hwn gyfrifoldebau statudol penodol, a byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i sicrhau bod ein gwasanaethau yn cydblethu mewn ffordd effeithiol – hynny yw, gan ddarparu gwybodaeth ddibynadwy am brisiadau eiddo a bilio cywir a phrydlon.

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu dealltwriaeth o weithio ar y cyd i gefnogi ein cwsmeriaid, cynnal ein swyddogaethau a hybu gohebiaeth bositif, a'r ymrwymiad i wneud hyn i gyd. Bydd yn:

- Diffinio rolau'r Awdurdodau Lleol ac Asiantaeth y Swyddfa Brisio
- Rhoi trosolwg o dimau'r VOA
- Ffurfioli ein hymrwymiad i weithio ar y cyd

# Timau Awdurdodau Lleol a'u Cyfrifoldebau



### Awdurdod bilio

Cyflwyno adroddiadau (a elwir yn Adroddiadau Awdurdod Bilio) sy'n rhoi gwybod i'r VOA am unrhyw newidiadau i eiddo domestig neu annomestig.

Darparu rhestri o feddianwyr annomestig i'r VOA

### Budd-dal Tai

Cyflwyno ceisiadau am benderfyniadau o ran rhent yn sgil hawliadau ar gyfer Budd-dal Tai

### Enwi a Rhifo Strydoedd

Rhoi gwybod i'r VOA (a chyrff eraill) am rifau tai, neu eu henwau, ac enwau strydoedd/heolydd

# Timau Asiantaeth y Swyddfa Brisio a’u Cyfrifoldebau

## Timau Cyswllt

Yn delio â galwadau dros y ffôn, e-byst, gohebiaeth drwy’r post a cheisiadau i ddatgelu. Gan ei fod yn ymdrin â chyswllt o holl ffrydiau gwaith y VOA, ystyrir y tîm hwn fel mynedfa ar gyfer holl wasanaethau’r VOA

## Timau Cofrestru

Mae’n Timau Cofrestru yn gyfrifol am gofrestru adroddiadau am Dreth Gyngor, Ardrethu Annomestig a Lwfans Tai. Maent yn cymryd y camau i wneud addasiadau gweinyddol, ac yn rhoi gweddill yr adroddiadau i’r timau perthnasol

## Tîm Gwybodaeth am y Farchnad

Mae’n Tîm Gwybodaeth am y Farchnad yn casglu gwybodaeth am Restrau o’r Meddianwyr a gwybodaeth am y farchnad. Maent yn defnyddio’r wybodaeth hon am y farchnad i ddarparu’r gwasanaeth sylfaenol ar gyfer ail-brisio eiddo annomestig.

### Canolfan Gwasanaeth Cwsmeriaid

### Swyddogaethau’r Swyddog Rhent

Mae Swyddogaethau’r Swyddog Rhent yn cynnwys gwneud penderfyniadau ynghylch cyfraddau’r Lwfans Tai Lleol ledled Lloegr. Mae’r Swyddog Rhent hefyd yn cynghori’r ALlau ynghylch lefel uchaf y cymhorthdal sy’n daladwy ar gyfer hawliadau Budd-dal Tai, ac yn cynnal cofrestr o renti teg ar gyfer tenantiaethau a reoleiddir yn Lloegr

### Unedau Prisio

## Uned Brisio Ranbarthol

Yn gyfrifol am lunio a chynnal rhestrau sy’n nodi gwerth ardrethol eiddo masnachol am ardrethi annomestig

## Uned Brisio Genedlaethol

Mae’r Uned Brisio Genedlaethol yn darparu prisiadau o eiddo hynod arbenigol a chymhleth ledled Cymru a Lloegr, ac yn gyfrifol am yr holl waith Ardrethu Annomestig yn Llundain Fewnol

### Ystadegau o ran Gwybodaeth, Data a Dadansoddi

## Timau Ystadegau a ID&A

Mae Timau Ystadegau a ID&A yn creu data ac ystadegau yn rheolaidd i gefnogi’r ALlau yn eu gwaith rhagolygu

### Uned Dreth Gyngor

Mae’r Uned Dreth Gyngor yn gyfrifol am lunio a chynnal rhestrau o fandiau Treth Gyngor

### Tîm Ymgysylltu ag Awdurdodau Lleol

Mae LAET yn darparu llwybr uwchgyfeirio ar gyfer Awdurdodau Lleol, ac yn datblygu gwaith ymgysylltu rhagweithiol rhyngom

# Gweithio mewn Partneriaeth

## Ystadegau a'r lefelau o wasanaeth a ddisgwylir

Mae'r VOA yn cyhoeddi ei dargedau o ran perfformiad fel rhan o'i gynlluniau busnes blynyddol ar gyfer Treth Gyngor, Ardrethu Annomestig a Swyddogaethau'r Swyddog Rhent.

Mae'r VOA hefyd yn cyhoeddi ystadegau swyddogol ynghylch Ardrethu Annomestig a Threth Gyngor ar GOV.UK, gan gynnwys yr holl ddyddiadau cyhoeddi sydd wedi'u trefnu ar gyfer y flwyddyn ariannol.

## Cyfathrebu effeithlon

Byddwn yn creu cyfleoedd i drafod adborth yn effeithlon er mwyn gwella'r ffordd yr ydym yn gweithio ar y cyd. Bydd y VOA yn parhau i gynnal fforymau rhanddeiliaid, gweithgorau a grwpiau ffocws, ac i fynegi cyfarfodydd Awdurdodau Lleol (cyfarfodydd unigol a chyfarfodydd grŵp) er mwyn atgyfnerthu'n perthnasau gweithio.

## Tîm Ymgysylltu ag Awdurdodau Lleol

Mae Tîm Ymgysylltu ag Awdurdodau Lleol Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn darparu llwybr uwchgyfeirio ar gyfer Awdurdodau Lleol. Maent hefyd yn:

- Canolbwyntio ar ffyrdd o ddatblygu a gwella ein gwasanaethau a'n cysylltiadau gweithredol
- Bwriadu sicrhau bod yr Awdurdodau Lleol yn cael gwybod am newidiadau perthnasol a phwyntiau o ddiddordeb
- Cynhyrchu cylchlythyr rheolaidd ar gyfer Awdurdodau Lleol
- Hyrwyddo partneriaethau gweithio ac yn edrych am gyfleoedd a fydd yn ein galluogi i ddarparu gwasanaeth effeithlon i'n cwsmeriaid

## Gwasanaeth Cymraeg

Mae gan y VOA Gynllun Iaith Gymraeg ar waith, wedi'i baratoi o dan Adran 21 o Ddeddf Iaith Gymraeg 1993. Mae'r Cynllun yn sicrhau'r camau y bydd y VOA yn eu cymryd i drin y Cymraeg a'r Saesneg mewn ffordd sy'n hafal ac o ansawdd uchel. Yn unol â'n Cynllun, rydym yn mynd i'r afael i sicrhau bod gan gwsmeriaid Cymraeg fynediad at y cymorth gorau.

# Gweithio ar y Cyd

## Er mwyn darparu'r gwasanaeth gorau i'n cwsmeriaid, rydym yn bwriadu:

Chwilio am gyfleoedd i wella profiad ein cwsmeriaid gan sicrhau ein bod yn darparu gwasanaethau i'r trethdalwr sydd werth pob ceiniog

Gweithio ar y cyd i sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau o'n hadnoddau, gan ymgynghori â'n gilydd i gael dealltwriaeth glir o rolau ein gilydd

Chwilio am welliannau i'r ffyrdd rydym yn gweithio ar y cyd gan wneud y gorau o gyfleoedd, megis fforymau rhanddeiliaid a gweithgorau/grwpiau ffocws

Sicrhau bod yr wybodaeth yr ydym yn ei rhannu â'n gilydd yn gywir ac yn gyflawn

Nodi a chodi unrhyw broblemau cyn gynted â phosibl. Ni ellir ystyried unrhyw iawndal rhwng cyrff cyhoeddus, ond byddwn yn bwriadu datrys problemau yn gyflym

Bydd y VOA yn cefnogi'r broses o rannu gwybodaeth am Ardrethu Annomestig gyda'r ALlau sydd wedi llofnodi'r Cytundeb a Phrotocol Rhannu Gwybodaeth, a hynny drwy'r Porth Gwybodaeth Awdurdodau Lleol

# Y Prif Ymrwymiadau

## Dyma ein cyfrifoldebau:

### Adroddiad Awdurdod Bilio

Y mecanwaith y mae’r Awdurdodau Lleol yn ei ddefnyddio i roi gwybod i’r VOA am newidiadau i eiddo domestig ac annomestig.

#### Asiantaeth y Swyddfa Brisio

- Rhoi gwybod i Awdurdodau Lleol pan fyddwn yn gwrthod BAR, gan roi rheswm clir
- Gweithio o fewn y mesurau perfformiad a amlinellir yn ein cynllun busnes

#### Awdurdod Lleol

- Cyflwyno adroddiadau yn rheolaidd, gan wneud ymdrech i fodloni Safonau Cyflwyno Adroddiadau Awdurdodau Bilio.
- Cyflwyno BARs gan ddefnyddio’r Gwasanaeth Cyflwyno BARs Ar-lein, lle bo hynny’n bosibl
- Cael y gorau o’r arweiniad a gwasanaethau ar-lein

### Newidiadau i’r Rhestrau

**Rhestr Treth Gyngor** – yn amlinellu’r bandiau ar gyfer pob eiddo domestig yng Nghymru a Lloegr.

**Rhestr Ardrethu** – yn amlinellu’r gwerthoedd ardrethol ar gyfer eiddo annomestig yng Nghymru a Lloegr.

#### Asiantaeth y Swyddfa Brisio

- Rhoi gwybod i Awdurdodau Lleol am unrhyw adroddiad neu achos sydd wedi achosi newid i’r Rhestr
- Rhoi gwybod i Awdurdodau Lleol am unrhyw adroddiad a gafodd ei ystyried, ond heb achosi newid i’r Rhestr
- Cyhoeddi dyddiadau amserlenni diweddariadau

#### Awdurdod Lleol

- Lawrlwytho a defnyddio’r data a roddir

## Hysbysiadau Cwblhau



Mae Hysbysiadau Cwblhau yn ddogfennau a gyhoeddir gan yr awdurdod lleol ar adeiladau newydd neu adeiladau a grëwyd drwy addasu adeilad presennol. Mae'r hysbysiad yn nodi'r dyddiad 'cwblhau' ac o ganlyniad pryd y bydd atebolrwydd am Dreth Gyngor neu Ardrethi Busnes yn cychwyn.

### Asiantaeth y Swyddfa Brisio

- Cadw a chyfeirio at unrhyw dystysgrifau a roddwyd

### Awdurdod Lleol

- Rhoi copi i'r VOA o unrhyw hysbysiadau cwblhau y mae'n eu cyflwyno neu'n eu tynnu'n ôl, neu lle mae'n cytuno ar ddiwrnod cwblhau gyda'r darpar dalwr ardrethi.

## Rhestrau o'r Meddianwyr



Mae gan Awdurdodau Lleol yn Lloegr ddyletswydd statudol i ddarparu Rhestrau o'r Meddianwyr i'r VOA ar gyfer pob eiddo annomestig. Fel rhan o waith y VOA i ddarparu ailbrisiadau rheolaidd o eiddo annomestig, maent fel arfer yn cysylltu â miliwn o dalwyr ardrethi i gasglu'r wybodaeth benodol sydd ei hangen am rent a phrydles – mae Rhestrau o'r Meddianwyr yn helpu'r gwaith hwn.

### Asiantaeth y Swyddfa Brisio

- Yn gweithio ar y cyd ag Awdurdodau Lleol er mwyn darparu Rhestrau o'r Meddianwyr

### Awdurdod Lleol

**Lloegr**

- Yn darparu Rhestrau o'r Meddianwyr bob chwarter ar, neu cyn, 15 Ionawr, 15 Ebrill, 15 Gorffennaf a 15 Hydref

**Cymru**

- Yn darparu Rhestrau o'r Meddianwyr yn unol â rheoliadau Lloegr, lle bo hynny'n bosibl

## Tystysgrifau

Cyhoeddir gan y VOA er mwyn helpu gyda'r gwaith bilio a chasglu

### Asiantaeth y Swyddfa Brisio

- Yn cyhoeddi Tystysgrifau Trosiannol (Lloegr yn unig), lle bo hynny'n briodol
- Yn darparu Tystysgrifau Ynni Adnewyddadwy, ar gais
- Yn darparu Tystysgrifau Adran 44a, ar gais (dosraniad o werth ardrethol hereditament syddwedi'i feddiannu'n rhannol)

### Awdurdod Lleol

- Yn adnabod prosiectau sy'n gymwys i gael ynni adnewyddadwy
- Wrth wneud cais am Dystysgrif Adran 44a – yn darparu enw'r perchennog/enw'r meddiannydd, manyliony Rhestr Ardrethu a manylion am unrhyw lety y mae'r ALl yn ei ystyried fel llety heb ei feddiannu

## Amcangyfrif o Werth Ardrethol

Gall ceisiadau am brisiadau amcangyfrifedig gael eu gwneud gan Awdurdodau Lleol (yn unig) er mwyn helpu â rhagolygon refeniw.

### Asiantaeth y Swyddfa Brisio

- Yn darparu gwerth ardrethol amcangyfrifedig sydd mor gywir â phosibl er mwyn helpu gyda rhagolygonrefeniw

### Awdurdod Lleol

- Yn gwneud ceisiadau am werth ardrethol drwy gyflwyno Adroddiad Awdurdodau Bilio
- Yn darparu digon o wybodaeth er mwyn galluogi cyfrifiad amcangyfrifedig, gan gynnwys cynlluniau

## Lwfans Tai Lleol a Budd-dal Tai

Mae Lwfans Tai Lleol yn lwfans cyfradd safonol a ddefnyddir wrth gyfrifo hawliad Budd-dal Tai ar gyfer tenant. Mae Timau Budd-dal Tai yr Awdurdodau Lleol yn delio â hawliadau Budd-dal Tai, ac mae'r Swyddog Rhent yn helpu drwy ddarparu prisiadau rhent.

### Asiantaeth y Swyddfa Brisio

- Yn gweithio o fewn y mesurau perfformiad a amlinellir yn ein cynllun busnes
- Yn monitro gwybodaeth wedi'i huwchlwytho o ran rhannu data Lwfans Tai Lleol

### Awdurdod Lleol

- Yn cyfeirio pob achos sydd wedi'i esemptio rhag Lwfans Tai Lleol, gan roi manylion llawn am y cais
- Yn darparu gwybodaeth wedi'i huwchlwytho o ran rhannu data Lwfans Tai Lleol
- Yn darparu gwybodaeth berthnasol i'r VOA am 'bobl y gallent fod yn dreisgar'